



## **Yr Arolygiaeth Gynllunio**

Apeliadau yn erbyn hysbysiad a gyhoeddwyd o dan adran  
36(3) neu 37(1) Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy  
2000.

Canllaw i Apelyddion

## Cynnwys

	Tud.
Cyflwyniad	2
1. A ddylwn apelio?	4
2. Sut a phryd y dylwn wneud apêl	5
3. Y weithdrefn ysgrifenedig	10
4. Y weithdrefn gwrandawriad	12
5. Y weithdrefn ymchwiliad	14
6. Dyfarniadau costau apeliadau	17
7. Penderfyniad yr Arolygydd	17
8. Cwynion a Heriau	18
9. Diogelu data a phreifatrwydd yn yr Arolygiaeth Gynllunio	20

## Atodiadau

- Atodiad un (diagram o'r weithdrefn ysgrifenedig)
- Atodiad dau (diagram o'r weithdrefn gwrandawriad)
- Atodiad tri (diagram o'r weithdrefn ymchwiliad)

**Apeliadau yn erbyn hysbysiad a gyhoeddwyd gan awdurdod perthnasol yn gofyn am i waith gael ei wneud i roi i'r cyhoedd fynediad rhesymol i ddarn o dir mynediad.**

Mae pennod tri Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (y cyfeirir ati fel arall yn y llyfryn hwn fel **y Ddeddf**) yn cynnwys mesurau i awdurdod perthnasol gyhoeddi hysbysiad yn gofyn am i waith gael ei wneud i roi i'r cyhoedd fynediad rhesymol i ddarn o dir mynediad. Gall fod mai Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC) yw'r awdurdod perthnasol, neu pan leolir y tir o fewn Parc Cenedlaethol, yr Awdurdod Parc Cenedlaethol. Os rhoddwyd y tir yng ngofal y Comisiwn Coedwigaeth a'i fod yn cynnwys coetir yn bennaf, bydd y Comisiynwyr yn ymdrin ag unrhyw faterion yn ymwneud â mynediad.

Gellir cyhoeddi hysbysiad pan wnaed cytundeb â pherchennog y tir ynghylch gwneud y cyfryw waith ond mae'r perchennog wedi methu â chyflawni'r cytundeb. Gellir eu cyhoeddi hefyd pan na ellir dod i gytundeb ac mae'r Awdurdod Perthnasol (AP) yn datgan ei fwriad i wneud y gwaith sydd ei angen.

Mae adran 38 y Ddeddf yn darparu i berchennog neu ddeiliad tir mynediad apelio i'r Arolygiaeth Gynllunio yn erbyn y cyfryw hysbysiad. Gellir apelio yn erbyn hysbysiad o dan adran 36(3) os nad oes angen y gwaith a geisir yn yr hysbysiad i gyflawni'r cytundeb, os gwnaed y gwaith eisoes neu os nad yw'r AP wedi caniatáu digon o amser i gwblhau'r gwaith. Gellir apelio yn erbyn hysbysiad o dan 37(1) pan nad oes angen y gwaith a geisir yn yr hysbysiad i ddarparu mynediad rhesymol i'r tir ar gyfer y cyhoedd, pan fydd y perchennog neu'r deiliad o'r farn y dylid darparu'r fynedfa rywle arall neu mewn rhyw ffordd arall ac os gwnaed unrhyw waith eisoes.

Penderfynir ar bob apêl a wneir gan yr Arolygiaeth Gynllunio ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae'r arweiniad hwn yn esbonio'r weithdrefn ar gyfer apelio yn erbyn cyhoeddi hysbysiad o dan adran 36(3) neu adran 37(1) o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000. Roedd y wybodaeth a geir ynddo yn gywir pan y'i cyhoeddwyd, ond nid oes gan yr arweiniad unrhyw statws cyfreithiol.

## **Ynglyn â'r Arolygiaeth Gynllunio**

Rydym yn asiantaeth i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog. O'n swyddfa yng Nghaerdydd, rydym yn ymdrin ag apeliadau yn erbyn hysbysiadau o dan adrannau 36(3) a 37(1) y Ddeddf. O'n swyddfa ym Mryste rydym yn ymdrin ag apeliadau tebyg yn Lloegr.

Mae gan yr Arolygwyr, sy'n barnu'r apeliadau, amrywiaeth o gefndiroedd. Rydym yn dewis yr Arolygwyr yn ofalus iawn ac yn eu hyfforddi'n drylwyr. Fel rheol maent yn gweithio o'u cartrefi.

Pan fydd staff ein swyddfa yn derbyn eich ffurflen apelio, byddant yn casglu'r holl wybodaeth am eich achos. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am eich apêl gallwch gysylltu â'ch swyddog achos. Byddwn yn rhoi ei enw a'i rif ffôn i chi. Ychydig cyn yr ymweliad â'r safle, bydd y swyddog achos yn anfon eich papurau apelio at yr Arolygydd, a fydd yn eu hastudio. Ar ôl ymweld â'r safle, neu ar ôl cynnal gwrandawriad neu ymchwiliad, mae'r Arolygydd yn ysgrifennu'r penderfyniad. Bydd eich swyddog achos yn anfon y penderfyniad atoch.

## **1. A ddylwn apelio?**

A oes gennyf yr hawl i apelio?

Dim ond pobl y cyflwynwyd hysbysiad iddynt o dan adran 36(3) neu adran 37(1) y Ddeddf iddynt gan yr Awdurdod Perthnasol a all apelio.

### ***Rhesymau dros Apelio***

Y rhesymau dros apelio a nodir gennych ar y ffurflen apelio yw eich cynrychioliadau ar gyfer eich achos. Mae'n bwysig eich bod yn eu nodi yn glir. Mae angen i chi esbonio pam yr ydych yn anghytuno â hysbysiad yr AP. Nid yw'n ddigon i ddweud nad ydych yn derbyn rhesymau'r AP. Os nad ydych yn nodi eich rhesymau dros apelio, efallai na fydd eich apêl yn ddilys. Os oes unrhyw beth arall yr hoffech i ni ei ystyried, dylech ddweud wrthym yn glir ond yn gryno. Wedyn gall yr AP wneud sylwadau ar y materion hyn pan fydd yn gwneud ei ddatganiad.

Os byddwn o'r farn bod unrhyw un o'ch cynrychioliadau yn cynnwys sylwadau hiliol neu enllibus, byddwn yn eu dychwelyd atoch cyn i'r Arolygydd eu gweld. Os byddwch yn dileu'r sylwadau hiliol neu enllibus, gallwch anfon eich sylwadau yn ôl atom. Ond mae'n rhaid i ni eu derbyn cyn i'r terfyn amser ddod i ben.

## 2. Sut a phryd y dylwn wneud apêl?

Mae'n rhaid gwneud apêl o fewn y **cyfnod apelio**. Dyma'r cyfnod a nodwyd ar gyfer cwblhau gwaith yn yr hysbysiad a arweiniodd at yr apêl.

Mae'r rhaid gwneud yr apêl ar ffurflen apelio safonol a geir o'n gwefan yn [www.planning-inspectorate.gov.uk/accesswales/wal/index.htm](http://www.planning-inspectorate.gov.uk/accesswales/wal/index.htm). Neu os cysylltwch â ni yn y cyfeiriad isod byddwn yn anfon set o ffurflenni apelio atoch:

Yr Arolygiaeth Gynllunio  
Y Tîm Mapio Mynediad a Chyfyngiadau  
Adeiladau'r Goron  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

Dylech lenwi tri chopi o'r ffurflen apelio. Anfonwch un copi atom ni, un i'r AP a chadwch y trydydd copi.

**Cofiwch y terfyn amser a nodir yn yr hysbysiad. Os byddwn yn ei derbyn ar ôl y dyddiad hwnnw ni fyddwn yn gallu ymdrin â hi.**

### ***Dewis Gweithdrefn***

Mae apeliadau yr ymdrinnir â hwy gan yr Arolygiaeth Gynllunio yn dilyn tri math o weithdrefn:

- Cynrychioliadau ysgrifenedig;
- Gwrandawriad; neu
- Ymchwiliad

Dylech feddwl yn ofalus am y math o weithdrefn sydd fwyaf addas i'ch apêl. Er bod y dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno tystiolaeth yn debyg iawn, mae'r digwyddiadau apêl eu hunain yn dra gwahanol. Mae hyn yn golygu y bydd yr Arolygydd yn cymryd mwy o amser fel arfer i benderfynu ar apêl sy'n cael ei phenderfynu drwy'r weithdrefn ymchwiliad. Hefyd bydd yn cymryd mwy o amser i baratoi'r cyfryw apêl a bydd mwy o gost ynghlwm wrth y gwaith.

**Pa weithdrefn bynnag a ddewiswn, bydd yr Arolygydd fel rheol yn ymweld â'r safle cyn gwneud penderfyniad.**

Pan fyddwch yn penderfynu pa weithdrefn i'w defnyddio, dylech ystyried y pwyntiau canlynol:

- Bydd canlyniad yr apêl bob amser yn dibynnu ar ei theilyngdod;
- Mae'r weithdrefn ysgrifenedig fel rheol yn gyflymach ac yn rhatach;
- Mae gwrandawriad yn ffordd anffurfiol o roi tystiolaeth. Fel rheol, ni chaniateir croesholi tystion yn ffurfiol;
- Gallwch chi neu'r AP ofyn am wrandawriad, ond byddwn yn penderfynu pa weithdrefn sydd orau ar gyfer eich apêl; a
- Gellir dyfarnu costau mewn achosion yr ymdrinnir â hwy trwy wrandawriadau neu ymchwiliadau. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn yn adran chwech.

Er mwyn osgoi'r posibilrwydd o gostau ychwanegol a chael penderfyniad cyn gynted ag y bo modd y dull ysgrifenedig sydd orau. Mae'r mwyafrif o bobl ond yn gofyn am wrandawriad neu ymchwiliad os ydynt o'r farn ei fod yn gwbl angenrheidiol.

### ***A oes unrhyw arall yn cymryd rhan yn yr apêl?***

Byddwn yn cyhoeddi hysbysiad o bob apêl ar ein gwefan. Ar ben hynny mae angen i ni ysgrifennu i'r Fforwm Mynediad Lleol ac unrhyw bartion eraill y gwyddom fod ganddynt ddiddordeb yn yr apêl neu iddynt gyflwyno sylwadau i'r AP ynghylch yr hysbysiad.

Bydd hyn yn rhoi cyfle i bobl neu grwpiau eraill (a elwir fel arall yn 'bobl â diddordeb') wneud sylwadau ynghylch eich apêl. Gall pobl â diddordeb hefyd gyfranogi mewn gwrandawriadau neu ymchwiliadau gyda chaniatâd yr Arolygydd.

Byddwch chi a'r AP yn gallu cyflwyno sylwadau ar gynrychioliadau pobl â diddordeb yn ddiweddarach yn y broses.

Cofiwch y caiff yr holl dystiolaeth a dderbynnir gennym ei harddangos ar ein gwefan ac y gellir ei harchwilio a'i chopio yn swyddfeydd yr AP ac yn ein swyddfeydd ein hunain. Felly, ni ddylech gynnwys gwybodaeth bersonol oni bai eich bod yn fodlon iddi gael ei gweld gan eraill.

## ***Terfynau amser ar gyfer anfon eich apêl***

Os ydych yn mynd i apelio, mae'n rhaid i ni dderbyn eich holl ddogfennau o fewn y terfyn amser a nodwyd yn yr hysbysiad a arweiniodd at yr apêl.

Dylech benderfynu cyn gynted ag y bo modd a ydych yn mynd i apelio. Mae'n rhaid i ni dderbyn yr holl ddogfennau sy'n ategu eich apêl o fewn y terfyn amser; fel arall ni fyddwn yn gwneud unrhyw beth ynghylch eich apêl. Fel rheol ni allwn dderbyn apêl hwyr. Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y byddwn yn gwneud hynny.

## ***Faint o amser a gymer yr apêl a beth fydd y gost?***

Nid oes rhaid i chi dalu am wneud yr apêl, ond bydd yn rhaid i chi dalu eich costau eich hun. Bydd cyfanswm costau eich apêl yn dibynnu ar b'un a ydych yn cyflogi cyngorwyr neu gynrychiolwyr proffesiynol. Po fwyaf cymhleth yr apêl, po fwyaf o amser y bydd yn rhaid i'ch cynrychiolydd ei dreulio yn gweithio ar eich apêl.

Penderfynir ar y mwyafrif o apeliadau yr ymdrinnir â hwy gan yr Arolygiaeth Gynllunio trwy gyfnewid datganiadau a gwybodaeth ysgrifenedig. Mae'r weithdrefn ysgrifenedig yn llai cymhleth na'r gweithdrefnau eraill ac fel rheol dyma'r dull cyflymaf a rhataf. Y dulliau eraill o ymdrin ag apeliadau yw gwrandawiadau neu ymchwiliadau. Byddwn yn dweud mwy wrthy ch am y gwahanol ddulliau yn ddiweddarach yn y canllaw hwn.

Weithiau, pan gynhelir gwrandawriad neu ymchwiliad neu pan fyddwn wedi trefnu un, efallai y bydd yn ofynnol i'r naill barti dalu costau'r parti arall, yn ogystal â'i gostau ei hun. Rhoddir mwy o fanylion yn adran chwech yr arweiniad hwn.

## ***Tystiolaeth fideo a chlywedol***

Ni allwn dderbyn tystiolaeth fideo na chlywedol ar gyfer apeliadau yr ymdrinnir â hwy trwy ohebiaeth ysgrifenedig. Mae hyn oherwydd na allwn fod yn sicr y bydd gan bawb sy'n cymryd rhan yn yr apêl offer addas i chwarae'r dystiolaeth, na bod yr un copïau yn union wedi'u hanfon at bawb. Gallwch anfon crynodeb ysgrifenedig o gynnwys y dystiolaeth fideo neu'r dystiolaeth glywedol, gan gynnwys ffotograffau llonydd, atom ni a'r AP gyda'ch dogfennau apelio.

Mewn gwrandawriad neu ymchwiliad, bydd yr Arolygydd yn penderfynu a ddylai ystyried unrhyw dystiolaeth fideo neu glywedol. Bydd yr Arolygydd yn eich hysbysu o'i benderfyniad pan fydd y



gwrandawriad neu'r ymchwiliad yn agor. Mae'n rhaid i chi gysylltu â'r AP i holi a oes ganddo offer addas y gellir eu defnyddio yn y gwrandawriad neu'r ymchwiliad, neu a fydd yn caniatáu i chi ddefnyddio eich offer eich hun.

## ***Y Gymraeg***

**Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn cyflwyno gwasanaeth o'r un safon i'w chwsmeriaid yn Gymraeg ac yn Saesneg.**

Cydnabyddwn y gall ein cwsmeriaid fynegi eu barn yn well yn eu dewis iaith gyfathrebu. Felly, mae croeso i chi gyfathrebu â ni yn Gymraeg neu yn Saesneg.

**Gall unrhyw un sydd am siarad mewn ymchwiliad neu wrandawriad yn Gymraeg wneud hynny, ond byddai o gymorth pe gallech hysbysu'r Arolygiaeth Gynllunio ymlaen llaw er mwyn i ni wneud trefniadau.**

**Os hoffech i ni ymdrin â'ch gweithdrefn apelio drwy gyfrwng y Gymraeg rhowch wybod i ni a gallwn wneud y trefniadau angenrheidiol.**

## ***Rhestr wirio***

- Cyn i chi anfon y ffurflen apelio atom, dylech sicrhau eich bod wedi cynnwys:
- Datganiad yn cadarnhau mai chi yw perchennog / deiliad y tir;
- Disgrifiad digonol o'r tir sy'n destun yr apêl i'n galluogi i nodi'r tir dan sylw;
- Copi o fap Arolwg Ordnans 1:10,000 neu ran ohono yn nodi ffiniau'r tir yn glir;
- Eich enw, eich cyfeiriad a'ch cod post;
- Digon o wybodaeth i'r Arolygydd a'r Awdurdod Perthnasol ddeall eich rhesymau dros apelio.
- Datganiad yn nodi p'un a hoffech gael gwrandawriad ai peidio.

**Cofiwch, os na dderbyniwn bob un o'ch dogfennau apelio o fewn y terfyn amser a nodwyd yn yr hysbysiad, ni fyddwn fel rheol yn ymdrin â'ch apêl.**

### ***Tynnu eich apêl yn ôl***

Gallwch dynnu eich apêl yn ôl unrhyw bryd cyn i benderfyniad gael ei gyhoeddi. Os penderfynwch yr hoffech dynnu eich apêl yn ôl dylech ffonio'r swyddog achos ar unwaith ac ysgrifennu wedyn i gadarnhau eich bod yn ei thynnu yn ôl, gan roi cyfeirnod yr apêl. Dylech hysbysu'r Awdurdod Perthnasol ar unwaith hefyd. Mae hyn yn arbennig o bwysig os byddwn wedi trefnu i wrandawriad neu ymchwiliad gael ei gynnal. Os byddwch yn tynnu eich apêl yn ôl yn afresymol ar ôl i ni ysgrifennu atoch i'ch hysbysu o ddyddiad y gwrandawriad neu'r ymchwiliad, efallai y bydd angen i chi dalu costau'r bobl eraill sy'n cymryd rhan yn yr apêl. Mae gan adran chwech ragor o wybodaeth am gostau.

### ***Amserlen ar gyfer apeliadau***

Mae terfynau amser pwysig y mae'n rhaid cadw atynt pan fyddwch yn anfon sylwadau atom ynghylch eich apêl. Maent yn berthnasol i'r AP hefyd. Pan fyddwn wedi derbyn eich apêl mae'n rhaid i ni aros i holiadur gael ei ddychwelyd atom gan yr AP. Bydd ein llythyr hefyd yn eich hysbysu o'r 'dyddiad dechrau'. Mae'r dyddiad hwn yn bwysig am ei fod yn dechrau'r amserlen ar gyfer derbyn sylwadau gennych a'r AP. Bydd ein llythyr yn nodi'r terfynau amser. **Os byddwn yn derbyn sylwadau ar ôl unrhyw un o'r terfynau amser, ni fyddwn fel rheol yn eu hystyried a byddwn yn eu hanfon yn ôl.**

Mae'r amserlen a'r camau canlynol yn berthnasol i bob apêl, pa weithdrefn bynnag a ddefnyddir.

Chwe wythnos ar ôl y dyddiad dechrau, gallwch chi a'r AP anfon datganiad achos. Byddwn yn anfon atoch chi a'r AP gopi o'r hyn a anfonwyd gan y llall ac unrhyw sylwadau gan bobl â diddordeb (os byddwn wedi'u derbyn mewn pryd).

Naw wythnos ar ôl y dyddiad dechrau, gallwch chi a'r AP anfon atom unrhyw sylwadau ynghylch datganiad y naill a'r llall a sylwadau gan bobl â diddordeb.

Mae rhai camau eraill yn berthnasol os ymdrinnir â'r apêl mewn gwrandawriad neu ymchwiliad. Esbonnir y rhain yn adrannau pedwar a phump.

### 3. Y weithdrefn ysgrifenedig

Lluniwyd yr amserlen ar gyfer y weithdrefn ysgrifenedig i sicrhau bod yr apêl yn mynd rhagddi yn gyflym ac yn deg. Dylai pawb sy'n cymryd rhan yn yr apêl gadw at yr amserlen neu efallai na fyddwn yn ystyried eu sylwadau.

Mae'r rhesymau dros apelio, a nodir ar y ffurflen apelio, yn ffurfio eich achos. Os na fyddwch yn eu rhoi i ni, neu os byddwn o'r farn bod eich rhesymau dros apelio yn annigonol, byddwn yn gofyn i chi am ragor o fanylion. Os na fyddwn yn eu derbyn mewn pryd ni fyddwn yn ymdrin â'ch apêl.

Dywed y rheoliadau fod yn rhaid i'r AP lenwi holiadur a'i anfon atoch chi ac atom ni gyda dogfennau i ategu ei benderfyniad. Mae'r dogfennau hyn yn cynnwys:

Datganiad yn nodi a fydd yn gwrthwynebu'r apêl ac, os felly, ei resymau dros wneud hynny;

Copiâu o unrhyw ohebiaeth berthnasol rhwng yr apelydd a'r AP;

Copiâu o unrhyw gynrychioliadau a wnaed i'r AP gan unrhyw berson ar wahân i'r apelydd ynghylch y penderfyniad ar ran yr AP y mae a wnelo'r apêl ag ef.

**O fewn chwe wythnos i'r dyddiad dechrau** mae'n rhaid i ni dderbyn dau gopi o unrhyw sylwadau ychwanegol yr hoffech chi neu'r AP eu gwneud. Byddwn yn anfon copi o'ch sylwadau i'r AP a byddwn yn anfon atoch chi gopi o unrhyw beth y mae'r AP yn ei anfon atom. Byddwn hefyd yn anfon unrhyw sylwadau gan bobl â diddordeb atoch.

**O fewn naw wythnos i'r dyddiad dechrau**, gallwch chi a'r AP anfon atom unrhyw sylwadau ar ddatganiad y naill a'r llall ac ar y cynrychioliadau hynny a wnaed gan bobl â diddordeb. Dylai eich sylwadau ymwneud â'r materion hyn yn unig, ac ni ddylent gynnwys unrhyw dystiolaeth newydd. Os byddwn yn derbyn y sylwadau hyn y tu allan i'r terfyn amser, ni fyddwn fel rheol yn eu hystyried.

Nid oes angen i chi gyflwyno sylwadau dim ond er mwyn eu cyflwyno.

## ***Sylwadau Hwyr***

Rydym yn disgwyl i bawb sy'n cymryd rhan yn yr apêl gadw at yr amserlen. Os byddwn yn derbyn sylwadau gennych chi, yr AP neu bobl â diddordeb ar ôl i'r terfyn amser ddod i ben, ni fydd yr Arolygydd fel rheol yn eu hystyried wrth benderfynu ar eich apêl. Os bydd yr Arolygydd yn gofyn am ragor o wybodaeth gennych neu'r AP, byddwn yn anfon copi o'r wybodaeth honno atoch neu'r AP. Byddwn yn caniatáu amser i gyflwyno sylwadau.

## ***Yr ymweliad â'r safle***

Gallwch fynd gyda'r Arolygydd pan fydd yn ymweld â'r safle. Wrth benderfynu p'un a ydych am fynd gyda'r Arolygydd ai peidio dylech gofio na fydd yr Arolygydd yn gallu derbyn tystiolaeth na thrafod yr apêl. Fodd bynnag, efallai y bydd yr Arolygydd yn gofyn i chi nodi nodweddion ffisegol y cyfeirir atynt yn eich tystiolaeth ysgrifenedig. Bydd Arolygwyr yn cadw'n gaeth at y rheol hon.

Os byddwch yn codi pwyntiau o dystiolaeth yn ystod yr ymweliad, bydd yr Arolygydd yn gofyn i chi beidio â gwneud hynny ac yn esbonio pam. Os byddwch yn parhau i drafod y dystiolaeth mae'n bosibl y bydd yr Arolygydd yn rhoi'r gorau i'r ymweliad ac yn gadael y safle.

Os penderfynwch yr hoffech fynd gyda'r Arolygydd byddwn yn hysbysu'r AP o'r dyddiad, yr amser a'r man cyfarfod fel y caiff gyfle i fynychu'r ymweliad (hyd yn oes os bydd yn dewis peidio â gwneud hynny).

#### **4. Y weithdrefn gwrandawriad**

Os na fyddwch chi neu'r AP yn cytuno ar y weithdrefn ysgrifenedig, cynhelir gwrandawriad neu ymchwiliad yn ei le. Trafodaeth am yr apêl a arweinir gan yr Arolygydd yw gwrandawriad. Mae'n fwy anffurfiol ac fel arfer yn gyflymach nag ymchwiliad ac mae'n gwneud i'r partion ganolbwyntio ar y prif faterion y mae anghydfod yn eu cylch. Rydym yn disgwyl i'r mwyafrif o wrandawiadau gael eu cwblhau o fewn awr a hanner.

Nid yw gwrandawiadau bob amser yn addas ar gyfer pob apêl, yn arbennig y rhai sy'n gymhleth neu'n ddadleuol, neu sydd wedi creu llawer o ddiddordeb yn lleol neu pan fydd angen croesholi tystion.

Yn debyg i weithdrefnau eraill, mae terfynau amser pwysig i ni dderbyn eich sylwadau. Fel rheol ni fydd yr Arolygydd yn ystyried unrhyw sylwadau a dderbyniwn ar ôl i'r terfyn amser ddod i ben, a byddwn yn eu hanfon yn ôl.

Yr un yw'r amserlen a'r camau yn arwain at y gwrandawriad a'r rhai ar gyfer y weithdrefn ysgrifenedig ac fe'u hesbonnir yn adran tri.

#### ***Hysbysiad o'r gwrandawriad***

Oni chytunir ar gyfnod rhybudd byrrach gyda chi a'r AP byddwn yn rhoi rhybudd pedair wythnos o leiaf o'r trefniadau ar gyfer gwrandawriad.

Mae dyletswydd arnom i benderfynu ar bob apêl mor effeithlon a chost-effeithiol â phosibl wrth roi cyfleoedd cyfartal i bob parti. Fodd bynnag, mae'r amser sydd gennym i ymdrin ag apeliadau a dderbynnir yn gyfyngedig. Am y rheswm hwn ni fyddwch chi na'r Awdurdod ond yn gallu gwrthod un dyddiad a gynigir ar gyfer y gwrandawriad. Os byddwch yn gwrthod y dyddiad cyntaf, byddwn yn dewis dyddiad arall. Gwnawn ein gorau glas i osgoi unrhyw ddyddiadau anghyfleus y byddwch yn rhoi gwybod i ni amdanynt, ond oherwydd yr amser cyfyngedig sydd gennym i benderfynu ar apeliadau ni allwn warantu y byddwn yn gallu dod o hyd i ddiwrnod mwy cyfleus. Os na allwch fod yn bresennol ar y dyddiad a bennwyd ar gyfer eich gwrandawriad, dylech ystyried anfon rhywun i gyflwyno eich achos ar eich rhan.

Ar ben hynny mae'n rhaid i ni hysbysu unrhyw berson â diddordeb fel y bydd yn gallu mynychu'r gwrandawriad os bydd am wneud hynny. Mewn gwrandawriad nid oes gan bobl â diddordeb yr hawl i siarad, ond gallant gael gwrandawriad yn ôl disgresiwn yr Arolygydd.

## ***Ar ôl y gwrandawriad***

Bydd yr Arolygydd yn ymweld â safle'r apêl a bydd yn gofyn a hoffech chi a'r AP fynd gydag ef/gyda hi. Mae'n bosibl y caiff yr ymweliad â'r safle ei gynnal ar ddiwrnod y gwrandawriad ond mae'n bosibl y caiff ei gynnal yn fuan wedyn. Gallwch fynd gyda'r Arolygydd pan fydd yn ymweld â'r safle. Wrth benderfynu p'un a ydych chi am fynd gyda'r Arolygydd ai peidio dylech gofio na fydd yr Arolygydd yn gallu derbyn tystiolaeth na thrafod eich apêl (oni fydd yr Arolygydd wedi trosglwyddo'r gwrandawriad i'r safle). Fodd bynnag, efallai y bydd yr Arolygydd yn gofyn i chi nodi nodweddion ffisegol y cyfeirir atynt yn eich tystiolaeth. Bydd Arolygwyr yn cadw'n gaeth at y rheol hon.

Os bydd yr AP yn penderfynu peidio â mynychu'r ymweliad â'r safle, mae'n hanfodol sicrhau na fydd yr ymweliad yn caniatáu i chi gael mantais annheg. Os byddwch yn codi pwyntiau o dystiolaeth yn ystod yr ymweliad, bydd yr Arolygydd yn gofyn i chi beidio â gwneud hynny ac yn esbonio pam. Os byddwch yn parhau i drafod y dystiolaeth mae'n debyg y bydd yr Arolygydd yn rhoi'r gorau i'r ymweliad ac yn gadael y safle.

Ar ôl yr ymweliad â'r safle bydd yr Arolygydd yn rhoi penderfyniad ysgrifenedig yn seiliedig ar y dystiolaeth ger ei fron/bron. Wrth wneud y penderfyniad bydd yr Arolygydd, ac eithrio o dan amgylchiadau eithriadol, yn diystyru unrhyw gynrychioliadau ysgrifenedig, tystiolaeth neu unrhyw ddogfen arall a dderbynnir ar ôl i'r gwrandawriad orffen.

## ***Pobl ag anableddau***

Rydym am gynnal pob gwrandawriad mewn adeilad sy'n darparu'r cyfleusterau cywir ar gyfer pobl ag anableddau. Yr AP fydd yn dewis ac yn darparu'r lle ac rydym wedi gofyn iddo roi sylw arbennig i anghenion pobl ag anableddau. Os hoffech chi, neu unrhyw un rydych yn ei adnabod, fynd i'r gwrandawriadau a bod gennych anghenion penodol, cysylltwch â'r AP i gadarnhau y gall wneud trefniadau priodol.

## 5. Y weithdrefn ymchwiliad

Dyma'r weithdrefn fwyaf ffurfiol a beichus o'r tair. Ystyriwn mai dim ond ar gyfer apeliadau sy'n cynnwys materion cymhleth neu niferus iawn y bydd angen ymchwiliadau cyhoeddus.

Mae camau cynnar apêl sy'n dilyn y weithdrefn ymchwiliad yn debyg iawn i'r rhai ar gyfer gwrandawiadau ac apeliadau trwy gynrychioliadau ysgrifenedig. Ond mae rhai pethau ychwanegol y bydd yn rhaid i chi a'r AP eu gwneud.

Cynhelir ymchwiliad os penderfynwch chi neu'r AP yr hoffech gael gwrandawriad a phenderfynwn fod gwrandawriad yn anaddas. Weithiau penderfynwn fod angen ymchwiliad. Os felly byddwn yn rhoi rhesymau i chi dros y penderfyniad. Byddwn yn gwneud y canlynol ym mhob achos ymchwiliad:

- Eich hysbysu a'r AP y cynhelir ymchwiliad. Bydd ein llythyr yn nodi'r dyddiad dechrau ac yn esbonio'r hyn y bydd yn rhaid i chi ei wneud.
- Pennu dyddiad ar gyfer yr ymchwiliad.
- Penodi Arolygydd addas. Efallai y bydd yn rhaid i ni drosglwyddo'r achos i Arolygydd arall, weithiau ar fyr rybudd, ond byddwn yn eich hysbysu o unrhyw newid.

Byddwn yn pennu dyddiad yr ymchwiliad cyn gynted ag y bo modd. Byddwn yn cysylltu â chi a'r AP ynghylch y trefniadau. Dylai dyddiad yr ymchwiliad fod o fewn 22 i'r dyddiad dechrau. Fel rheol gallwch chi a'r AP wrthod un dyddiad cyn i ni drefnu'r ymchwiliad. Mae gennych yr hawl i gael o leiaf 28 o ddiwrnodau o rybudd, yn ysgrifenedig, o'r trefniadau ar gyfer yr ymchwiliad. Ond os yw'r apêl yn fater o frys, neu os rhyddheir dyddiad cynnar o ganlyniad i ymchwiliad yn cael ei ganslo, efallai y byddwn yn gofyn i chi dderbyn llai o rybudd.

### ***Cyfnwid datganiadau ysgrifenedig***

Mae'n rhaid i chi a'r AP anfon atom ddau gopi o'r achos (ynghyd ag unrhyw ddogfennau eraill) y mae'r ddau ohonoch yn bwriadu ei gyflwyno yn yr ymchwiliad. Bydd y datganiad a'r dogfennau cysylltiedig ar gael i'r cyhoedd edrych arnynt.

Byddwn yn anfon copi o ddatganiad yr AP atoch a chopi o'ch datganiad i'r AP. Byddwn hefyd yn anfon atoch chi a'r AP gopi o unrhyw sylwadau gan bobl â diddordeb ac unrhyw un arall sydd â'r hawl i gyflwyno sylwadau. Gallwch chi a'r AP wneud sylwadau ysgrifenedig arnynt.

Os oes gennych chi, neu unrhyw un o'ch tystion, ddatganiad sy'n mynd i gael ei ddarllen yn uchel yn yr ymchwiliad ('proflen dystiolaeth'), mae'n rhaid i ni dderbyn dau gopi o leiaf bedair wythnos cyn yr ymchwiliad. Mae'n rhaid i'r AP wneud yr un peth. Byddwn yn anfon copi o'ch proflen dystiolaeth i'r AP a chopi o broflen dystiolaeth yr AP atoch chi. Os yw'r datganiad yn cynnwys mwy na 1,500 o eiriau dylai fod crynodeb hefyd. Dylai'r crynodeb adlewyrchu cynnwys y broflen ac ni ddylai gyflwyno tystiolaeth newydd. Pan ddarperir crynodeb, fel rheol dim ond y crynodeb hwnnw a ddarllenir yn yr ymchwiliad. Os na wnewch chi neu'r AP hyn, efallai y caiff yr ymchwiliad ei atal am gyfnod ac efallai y bydd yn rhaid i chi neu'r AP dalu costau.

### ***Datganiad tir cyffredin***

Mae'n rhaid i chi drafod pob un o'r pwyntiau am eich apêl yr ydych chi a'r AP yn cytuno arnynt. O leiaf bedair wythnos cyn dyddiad yr ymchwiliad mae'n rhaid i chi anfon atom gopi ysgrifenedig o'r hyn y mae'r ddau ohonoch wedi cytuno arno. Gelwir hyn yn 'ddatganiad tir cyffredin'.

### ***Hysbysebu'r ymchwiliad***

Byddwn yn hysbysu'r AP, y fforwm mynediad lleol perthnasol ac unrhyw bobl a ysgrifennodd atom o'r trefniadau ar gyfer yr ymchwiliad.

### ***Yn yr ymchwiliad***

Bydd yr Arolygydd yn dechrau trwy gyflwyno ei hun, cyhoeddi testun yr ymchwiliad a gofyn am enwau pawb sy'n dymuno siarad. Wedyn, fel rheol, bydd yr Arolygydd yn esbonio'r weithdrefn.

Mae'n rhaid i bawb sy'n cymryd rhan yn yr ymchwiliad ddilyn yr un rheolau. Bwriedir i hyn sicrhau bod y weithdrefn yn deg i bawb. Bydd yr Arolygydd yn sicrhau bod ganddo'r holl wybodaeth sydd ei hangen i benderfynu ar yr apêl.

Fel rheol, bydd yr AP yn cyflwyno ei achos yn gyntaf, wedyn bydd yn galw unrhyw dystion. Gallwch chi a'r AP ofyn cwestiynau. Wedyn byddwch yn cyflwyno eich achos yn yr un ffordd, a bydd yr AP a'r Arolygydd yn holi unrhyw gwestiynau sydd ganddynt i chi a'ch tystion.

Os nad ydych yn berchen ar y cyfan o safle'r apêl, gall y perchennogion eraill siarad hefyd a holi'r tystion. Wedyn, fel rheol,



caiff pobl eraill â diddordeb – er enghraifft, cymdogion neu gynrychiolwyr fforymau mynediad lleol – gyfle i fynegi eu barn. Efallai y bydd yr Arolygydd yn caniatáu iddynt gael eu holi neu'n caniatáu iddynt eich holi chi, a bydd yn sicrhau eich bod chi a'r AP wedi gweld unrhyw lythyrau gan bobl neu grwpiau â diddordeb na allant fod yn bresennol eu hunain. Mae gennych chi, a'r AP, yr hawl i wneud datganiad terfynol. Fel rheol, chi, yr apelydd, fydd yn siarad olaf. Mae hyn yn caniatáu i chi sôn wrth yr Arolygydd am y pwyntiau pwysig sydd wedi codi yn ystod y cwestiynau. Ond ni allwch gyflwyno dadleuon newydd.

### ***Yr ymweliad â safle'r ymchwiliad***

Fel rheol bydd yr Arolygydd yn ymweld â safle'r apêl a'r ardal o'i amgylch ar ei ben ei hun, cyn i'r ymchwiliad ddechrau. Gallwch chi a'r AP ofyn i'r Arolygydd ymweld â'r safle yn ystod yr ymchwiliad, neu ar ôl i'r ymchwiliad orffen, a gallwch ofyn am gael bod yn bresennol neu am gael eich cynrychioli. Yn ystod yr ymweliad, bydd yr Arolygydd yn gofyn i chi a'r AP a oes unrhyw beth am safle'r apêl yr hoffech dynnu sylw ato. Ond ni allwch ddweud unrhyw beth am rinweddau'r apêl.

### ***Sylwadau hwyr***

Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y bydd yr Arolygydd yn ystyried unrhyw dystiolaeth a dderbynnir gennym ar ôl i'r ymchwiliad ddod i ben. Os derbyniwn dystiolaeth newydd ar ôl yr ymchwiliad ond cyn i ni gyhoeddi penderfyniad yr Arolygydd, byddwn yn ei throsglwyddo i'r Arolygydd er mwyn iddo benderfynu a fydd yn ei hystyried. Os bydd yn penderfynu ei hystyried, o dan amgylchiadau anarferol iawn, byddwn yn ei throsglwyddo i'r pobl eraill a gymerodd ran yn yr ymchwiliad. Os bydd angen, byddwn yn ailagor yr ymchwiliad.

### ***Pobl ag anableddau***

Rydym am gynnal pob gwrandawriad mewn adeilad sy'n darparu'r cyfleusterau cywir ar gyfer pobl ag anableddau. Yr AP fydd yn dewis ac yn darparu'r lle ac rydym wedi gofyn iddo roi sylw arbennig i anghenion pobl ag anableddau. Os hoffech chi, neu unrhyw un rydych yn ei adnabod, fynd i'r gwrandawriadau a bod gennych anghenion penodol, cysylltwch â'r AP i gadarnhau y gall wneud trefniadau priodol.

## ***Cyfarfodydd cyn ymchwiliad***

Weithiau, os bydd llawer o bobl am fynd i'r ymchwiliad neu os yw'r apêl yn gymhleth, byddwn yn trefnu cyfarfod cyn yr ymchwiliad (cyfarfod cyn-ymchwiliad). Byddwn yn rhoi gwybod i chi os penderfynwn wneud hynny, a byddwn yn esbonio'r hyn y bydd y cyfarfod yn ymdrin ag ef. Fel rheol byddwn yn trefnu'r math hwn o gyfarfod os ydym o'r farn y bydd yr ymchwiliad yn para am fwy nag wyth niwrnod.

Ni fydd y math hwn o gyfarfod ond yn ymdrin â phethau megis ym mha drefn y byddwch chi, yr AP ac unrhyw bobl eraill yn cyflwyno eu tystiolaeth. Ni allwch drafod cynrychioliadau eich apêl yn y cyfarfod hwn.

## 6. Dyfarniadau Costau Apeliadau

Fel rheol bydd yn rhaid i chi a'r AP dalu eich costau eich hunain am eich apêl, p'un a gaiff ei phenderfynu trwy'r weithdrefn ysgrifenedig, gwrandawriad neu ymchwiliad.

Os penderfynir ar yr apêl trwy wrandawriad neu ymchwiliad, gallwch ofyn i'r Arolygydd orchymyn i'r AP dalu rhai o'ch costau neu eich costau i gyd. Gall yr AP hefyd ofyn i chi dalu rhai o'i gostau neu ei gostau i gyd. Dim ond os gall y person sy'n gwneud cais am gostau ddangos i'r ochr arall ymddwyn yn afresymol, a pheri iddo fynd i gost ddiangen neu wastraffus y bydd yr Arolygydd yn gwneud hynny.

Am ragor o wybodaeth am y rheolau sy'n ymwneud â chostau, gweler Cylchlythyr 23/93 y Swyddfa Gymreig sydd ar gael o'r Llyfrfa, rhif ffôn 0870 600 5572 neu ei gwefan [www.hmso.gov.uk](http://www.hmso.gov.uk), neu ar wefan yr Arolygiaeth [www.planning-inspectorate.gov.uk/cymru/wal/index\\_e.htm](http://www.planning-inspectorate.gov.uk/cymru/wal/index_e.htm)

## 7. Penderfyniad yr Arolygydd

Bydd yr Arolygydd yn ysgrifennu atoch i'ch hysbysu o'i benderfyniad/phenderfyniad. Fel rheol bydd yn:

- disgrifio'n fyr y rheswm dros yr apêl;
- nodi'r materion pwysig; ac yn
- astudio'r prif ddadleuon o blaid ac yn erbyn eich apêl ac yn esbonio pam y mae'r Arolygydd wedi dod i'r penderfyniad.

Byddwn yn anfon copi o'r penderfyniad atoch chi, yr AP ac unrhyw un arall sydd â'r hawl i gael copi neu a ofynnodd am un. Gosodir y penderfyniad ar ein gwefan am o leiaf chwe mis o ddyddiad y penderfyniad.

## 8. Cwynion a Heriau

### *Cwynion amdanom ni*

Os oes gennych unrhyw gwynion neu gwestiynau am y penderfyniad, neu'r ffordd rydym wedi ymdrin â'ch apêl, ysgrifennwch at y:

Rheolwr Cwynion  
Yr Arolygiaeth Gynllunio  
Adeiladau'r Goron  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 3889  
Ffacs: 029 2082 5150

E-bost: [wales@planning-inspectorate.gsi.gov.uk](mailto:wales@planning-inspectorate.gsi.gov.uk)

Bydd y Rheolwr Cwynion yn eich ateb, neu bydd yn gofyn i adran o fewn yr Arolygiaeth ateb am fod ganddi wybodaeth arbenigol benodol.

Byddwn yn ymchwilio i'ch cwyn a gallwch ddisgwyl ateb llawn o fewn tair wythnos. **Fodd bynnag, ni allwn ailystyried apêl os gwnaed y penderfyniad arni eisoes.**

### ***Sut y gallaf herio penderfyniad?***

Efallai y byddwch yn gallu herio'r penderfyniad trwy adolygiad barnwrol yn yr Uchel Lys. Mae'r Arolygiaeth yn argymhell yn gryf eich bod yn ceisio cyngor cyfreithiol os bwriedwch wneud hynny.

### ***Ombwdsmon Gweinyddol Cymru***

Os ydych o'r farn nad ydym wedi'ch trin yn deg, gallwch ofyn i'r Ombwdsmon ymchwilio i'r mater. Nid oes gan yr Ombwdsmon unrhyw bŵer i gwestiynu rhinweddau eich apêl na newid y penderfyniad. Nid yw'r Ombwdsmon ond yn rhoi sylw i'r modd yr ydym yn ymdrin ag apeliadau a'u gweinyddu. Fel rheol bydd yr Ombwdsmon yn disgwyl i chi fod wedi gwneud cwyn i ni yn gyntaf cyn ymchwilio i'ch achos. Gallwch gwyno i'r Ombwdsmon yn:

Ombwdsmon Gweinyddol Cymru  
Pumed Llawr

Twr y Brifddinas  
Heol y Brodyr Llwydion  
Caerdydd  
CF10 3AG

### ***Y Cyngor ar Dribiwnlysoedd***

Os ydych o'r farn bod rhywbeth o'i le ar y weithdrefn sylfaenol a ddefnyddiwyd gennym ar gyfer eich apêl, gallwch gwyno i'r Cyngor ar Dribiwnlysoedd yn:

Council on Tribunals  
22 Kingsway  
London  
WC2B 6LE

Bydd y Cyngor yn ymdrin â'ch eich cwyn os yw o'r farn ei bod yn ymwneud ag ef. Yn debyg i'r Ombwdsmon, nid yw'n ymwneud â theilyngdod eich apêl ac nid oes ganddo unrhyw bwer i newid y penderfyniad.

### ***Apeliadau yn Lloegr***

Os hoffech apelio yn erbyn hysbysiad a gyhoeddwyd o ran safle yn Lloegr, cysylltwch â Thîm Mynediad a Chyfyngiadau Lloegr yn;

English Access and Restriction Team  
Room 215  
Regus House  
1 Friary  
Temple Quay  
Bristol BS1 6EA

Ffôn: 0117-344 5680 neu 5738

Ffacs: 0117-344 5242 E-bost: [access@pins.gsi.gov.uk](mailto:access@pins.gsi.gov.uk)

## **9. Diogelu Data a Phreifatrwydd yn yr Arolygiaeth Gynllunio**

**O dan Ddeddf Diogelu Data 1998 mae dyletswydd gyfreithiol arnom i'ch hysbysu o unrhyw wybodaeth a gasglwn gennych a'i diogelu. Wrth ystyried apêl, mae'r Arolygydd (neu Gynulliad Cenedlaethol Cymru) yn derbyn amrywiaeth o wybodaeth bersonol. Daw'r wybodaeth hon o nifer o ffynonellau gan gynnwys y ffurflen apelio ac unrhyw ddogfennaeth yn ategu neu'n gwrthwynebu'r apêl.**

**Yn unol â rhwymedigaethau statudol cyfredol trefnir bod y rhan fwyaf o'r ddogfennaeth a dderbynnir ar gael i'r cyhoedd. Er hynny, mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn cydnabod pwysigrwydd preifatrwydd unigolion. Mae'r adran hon yn nodi pa wybodaeth a gasglwn a sut y caiff ei defnyddio.**

### ***Diogelu Data***

Mae'r Arolygiaeth Gynllunio wedi rhoi gweithdrefnau ar waith i sicrhau ei bod yn cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998 wrth drafod eich gwybodaeth bersonol.

Yn arbennig:

- dim ond at ddibenion ymdrin â'r apêl berthnasol a'i hystyried y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol;
- dim ond am gyhyd ag y bo'n rhesymol angenrheidiol y byddwn yn dal eich gwybodaeth bersonol. Yn achos apelïadau a gwblhawyd fe'i delir am 12 mis fel arfer ac yn achos heriau fe'i delir am 3 blynedd. Byddwn yn cadw copi o benderfyniad yr Arolygydd am gyfnod amhenodol. Mae'n bosibl y gallai gwybodaeth bersonol fod yn rhan o benderfyniad yr Arolygydd.

### ***Pwy all weld eich gwybodaeth bersonol?***

Bydd papurau'r apêl ar gael i'w harchwilio mewn lleoliadau penodedig a gall unrhyw un eu harchwilio a gwneud copïau ohonynt. Mae gan unrhyw un sydd â'r hawl i gael ei hysbysu o'r penderfyniad mewn achos ymchwiliad hawl gyfreithiol i wneud cais i archwilio'r dogfennau, y ffotograffau a'r cynlluniau a restrir o fewn 6 wythnos i ddyddiad y penderfyniad. Fel arfer, ni wrthodir ceisiadau eraill i weld dogfennau'r apêl. Yn ogystal, gellir rhoi gwybodaeth a

dderbynnir ar ein gwefan a bydd modd i unrhyw drydydd parti ledled y byd ei gweld, gan gynnwys unigolion neu sefydliadau nad oes ganddynt unrhyw ddi-ddordeb uniongyrchol yn yr apêl benodol.

PA WYBODAETH A DDELIR GENNYM?

**Wrth ymdrin ag apêl gallem dderbyn gwybodaeth bersonol amdanoch gan nifer o bartïon, gan gynnwys gennych chi eich hun, yr AP neu bobl eraill â diddordeb yn yr apêl. Mae'r wybodaeth a dderbyniwn yn amrywio ond gall gynnwys eich enw, eich cyfeiriad a'ch galwedigaeth, a gwybodaeth yn ymwneud â'ch barn neu'ch bwriad mewn perthynas ag apêl.**

***Pa gamau y dylech eu cymryd?***

- Dim ond gwybodaeth bersonol rydych yn fodlon iddi fod ar gael i'r cyhoedd y dylech ei darparu;
- Peidiwch â chynnwys gwybodaeth bersonol am drydydd parti arall (gan gynnwys aelodau o'r teulu) oni fyddwch wedi hysbysu'r unigolyn dan sylw, a'i fod yn fodlon i chi ei hanfon;
- Os bydd unrhyw wybodaeth bersonol a ddarparwyd gennych yn newid, rhwch wybod i ni cyn gynted â phosibl.

***Y Rheolwr Data***

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r rheolwr data (y sefydliad sy'n gyfrifol am ymdrin â gwybodaeth bersonol).

***Eich hawl i weld data personol***

Ar gais, mae'n rhaid i ni ddarparu ar eich cyfer gopi darllenadwy o'r data personol a gedwir amdanoch o fewn 40 niwrnod. Codir tâl statudol o £10. Bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth i brofi pwy ydych cyn y rhyddheir gwybodaeth. Mae sicrhau bod y data a gedwir amdanoch yn gywir yn bwysig er ein lles ni a'ch lles chi. Os bydd y data a gedwir gennym yn anghywir mewn unrhyw ffordd, yna yn ddi-dâl a lle y bo hynny'n briodol gallwch ofyn i ni:

- ei ddileu,
- ei gywiro neu ei ddiwygio,
- ei gwblhau.

Ar gyfer unrhyw ymholiad neu bryder ynghylch ein polisi preifatrwydd, neu i ofyn am gael gweld eich data personol, cysylltwch â Rheolwr Data yr Arolygiaeth Gynllunio:

Alastair Grant  
Data Manager  
The Planning Inspectorate  
Room 4/24 Hawk Wing  
Temple Quay House  
2, The Square,  
Temple Quay  
Bristol BS1 6PN

Ffôn: 0117 372 8922

E-bost: [alastair.grant@planning-inspectorate.gsi.gov.uk](mailto:alastair.grant@planning-inspectorate.gsi.gov.uk)

Ceir gwybodaeth gysylltiedig am ein Polisi Preifatrwydd ar ein gwefan yn [www.planning-inspectorate.gov.uk/cymru/wal/index.e.htm](http://www.planning-inspectorate.gov.uk/cymru/wal/index.e.htm) yn yr adran wedi'i marcio "Datganiad Preifatrwydd".

### ***Cwynion am fynediad i wybodaeth bersonol***

Ein nod yw sicrhau ein bod yn datrys unrhyw faterion yn foddhaol, fodd bynnag, os na fyddwch yn fodlon ar ein hymateb gallwch gysylltu â:

The Information Commissioner  
Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Cheshire  
SK9 5AF

Switsfwrdd: 01625 545 700

Ffacs: 01625 524 510

DX: 20819 Wilmslow

Gwefan: [www.dataprotection.gov.uk/](http://www.dataprotection.gov.uk/)

E-bost: [mail@dataprotection.gov.uk](mailto:mail@dataprotection.gov.uk)



## ATODIAD 1 - Y WEITHDREFN YSGRIFENEDIG

Amserlen	Chi	AP	Pobl â Diddordeb
<p><b>Gwneir yr apêl (o fewn y terfyn amser a nodwyd yn yr hysbysiad).</b></p> <p>Pan dderbyniwn y wybodaeth berthnasol gan yr AP, byddwn yn pennu <b>dyddiad dechrau</b> ac yn hysbysu unrhyw bobl â diddordeb eich bod wedi apelio.</p>	<p>Rydych yn anfon eich ffurflen apelio a'ch dogfennau ategol atom a'r AP. Dylai eich rhesymau dros apelio ffurfio eich achos llawn.</p>	<p>Mae'r AP yn derbyn copi o'ch ffurflen apelio a'r dogfennau ategol.</p>	
<p><b>O fewn pythefnos i'r dyddiad pryd y derbyniwyd yr apêl</b></p>	<p>Rydych yn derbyn holiadur wedi'i lenwi ac unrhyw ddogfennau ategol gan yr AP.</p>	<p>Mae'r AP yn anfon holiadur wedi'i lenwi a dogfennau ategol atoch chi ac atom ni.</p>	
<p><b>O fewn chwe wythnos i'r dyddiad dechrau (Fel rheol, ni dderbynnir datganiadau hwyr ond cânt eu dychwelyd atoch.)</b></p>	<p>Rydych yn anfon dau gopi o unrhyw ddatganiad pellach atom. Ni ddylai'r datganiad hwn ond ymwneud â materion a godwyd gan yr holiadur ac unrhyw ddogfennau ategol.</p>	<p>Mae'r AP yn anfon dau gopi o unrhyw ddatganiad pellach atom ni.</p>	<p>Mae pobl â diddordeb yn anfon unrhyw sylwadau atom.</p>

<p><b>O fewn 9 wythnos dyddiad dechrau</b> (Fel rheol, ni dderbynnir sylwadau anfonwyd yn hwyr ond cânt eu dychwelyd atoch.)</p>	<p>Rydych yn anfon dau gopi o'ch sylwadau terfynol ar ddatganiad yr AP ac ar unrhyw sylwadau gan bobl â diddordeb atom.</p>	<p>Mae'r AP yn anfon dau gopi o'i sylwadau terfynol ar eich datganiad ac ar unrhyw sylwadau gan bobl â diddordeb atom ni.</p>	
--	---	---	--

### PENDERFYNIAD

Ar ôl yr ymweliad â'r safle, mae'r Arolygydd yn ysgrifennu'r penderfyniad. Bydd yn anfon copi o'r hysbysiad o'r penderfyniad atoch chi, yr AP, ac unrhyw un arall sy'n gofyn am gopi.

### ATODIAD DAU – Y WEITHDREFN GWRANDAWIAD

Amserlen	Chi	AP	Pobl â Diddordeb
<p><b>Gwneir yr apêl</b> (o fewn y terfyn amser a nodwyd yn yr hysbysiad). Pan dderbyniwn y wybodaeth berthnasol gan yr AP, byddwn yn pennu <b>dyddiad dechrau</b> ac yn hysbysu unrhyw bobl â diddordeb eich bod wedi apelio.</p>	<p>Rydych yn anfon eich ffurflen apelio a'ch dogfennau ategol atom ni a'r AP. Dylai eich rhesymau dros apelio ffurfio eich achos llawn.</p>	<p>Mae'r AP yn derbyn copi o'ch ffurflen apelio a'r dogfennau ategol.</p>	
<p><b>O fewn pythefnos i'r</b></p>	<p>Rydych yn derbyn holiadur</p>	<p>Mae'r AP yn anfon holiadur</p>	

<b>dyddiad pryd y derbyniwyd yr apêl</b>	wedi'i lenwi ac unrhyw ddogfennau ategol gan yr AP.	wedi'i lenwi a dogfennau ategol atoch chi ac atom ni.	
<b>O fewn chwe wythnos i'r dyddiad dechrau</b> (Fel rheol, ni dderbynnir datganiadau hwyr ond cânt eu dychwelyd atoch.)	Rydych yn anfon dau gopi o'ch datganiad gwrandawriad.	Mae'r AP yn anfon dau gopi o'i ddatganiad gwrandawriad atom ni.	Mae pobl â diddordeb yn anfon unrhyw sylwadau atom.
<b>O fewn 9 wythnos i'r dyddiad dechrau</b> (Fel rheol, ni dderbynnir sylwadau a anfonwyd yn hwyr ond cânt eu dychwelyd atoch.)	Rydych yn anfon dau gopi o'ch sylwadau terfynol ar ddatganiad yr AP ac ar unrhyw sylwadau gan bobl â diddordeb.	Mae'r AP yn anfon dau gopi o'i sylwadau terfynol ar eich datganiad ac ar unrhyw sylwadau gan bobl â diddordeb atom ni.	Gall pobl â diddordeb fynychu'r gwrandawriad ac os bydd yr Arolygydd yn cytuno, gallant fynegi eu barn.

### **Penderfyniad**

Ar ôl y gwrandawriad, mae'r Arolygydd yn ysgrifennu'r penderfyniad. Bydd yn anfon copi o'r hysbysiad o'r penderfyniad atoch chi, yr AP, ac unrhyw un arall sy'n gofyn am gopi.

### ATODIAD 3 - Y WEITHDREFN YMCHWILIAD

Amserlen	Chi	AP	Pobl â Diddordeb
<p><b>Gwneir yr apêl (o fewn y terfyn amser a nodwyd yn yr hysbysiad).</b> Pan dderbyniwn y wybodaeth berthnasol gan yr AP, byddwn yn pennu <b>dyddiad dechrau</b> ac yn hysbysu unrhyw bobl â diddordeb eich bod wedi apelio.</p>	<p>Rydych yn anfon eich ffurflen apelio a'ch dogfennau ategol atom ni a'r AP. Dylai eich rhesymau dros apelio ffurfio eich achos llawn.</p>	<p>Mae'r AP yn derbyn copi o'ch ffurflen apelio a'r dogfennau ategol.</p>	
<p><b>O fewn pythefnos i'r dyddiad pryd y derbyniwyd yr apêl</b></p>	<p>Rydych yn derbyn holiadur wedi'i lenwi ac unrhyw ddogfennau ategol gan yr AP.</p>	<p>Mae'r AP yn anfon holiadur wedi'i lenwi a dogfennau ategol atoch chi ac atom ni.</p>	
<p><b>O fewn pythefnos i'r dyddiad dechrau (Fel rheol, ni dderbynnir datganiadau hwyr ond cânt eu dychwelyd atoch.)</b></p>	<p>Rydych yn anfon dau gopi o'ch datganiad ymchwiliad atom. Ni ddylai'r datganiad hwn ond ymwneud â materion a godwyd gan yr holiadur ac unrhyw ddogfennau ategol.</p>	<p>Mae'r AP yn anfon dau gopi o'i ddatganiad ymchwiliad atom ni.</p>	<p>Mae pobl â diddordeb yn anfon unrhyw sylwadau atom.</p>
	<p>Rydych yn</p>	<p>Mae'r AP yn</p>	

<p><b>O fewn naw wythnos i'r dyddiad dechrau</b> (Fel rheol, ni dderbynnir sylwadau a anfonwyd yn hwyr ond cânt eu dychwelyd atoch.)</p>	<p>anfon dau gopi o'ch sylwadau terfynol ar ddatganiad yr AP ac ar unrhyw sylwadau gan bobl â diddordeb atoch.</p>	<p>anfon dau gopi o'i sylwadau terfynol ar eich datganiad ac ar unrhyw sylwadau gan bobl â diddordeb atom ni.</p>	
<p><b>Bedair wythnos cyn yr ymchwiliad</b> (Fel rheol, ni dderbynnir proflenni tystiolaeth a anfonwyd yn hwyr ond cânt eu dychwelyd atoch.)</p>	<p>Rydych yn anfon dau gopi o'ch proflen dystiolaeth ac un copi o'r datganiad tir cyffredin.</p>	<p>Mae'r AP yn anfon dau gopi o'i broflen dystiolaeth atom.</p>	<p>Gall pobl â diddordeb fynychu'r ymchwiliad ac os bydd yr Arolygydd yn cytuno, gallant fynegi eu barn.</p>

### Penderfyniad

Ar ôl y gwrandawriad, mae'r Arolygydd yn ysgrifennu'r penderfyniad. Bydd yn anfon copi o'r hysbysiad o'r penderfyniad atoch chi, yr AP, ac unrhyw un arall sy'n gofyn am gopi.